

Trosolwg

# Asiantiaid yn Refferendwm yr UE

---

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr sydd am wybod am benodi asiantiaid a mynd i weithrediadau allweddol yn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE

Cynnwys:

[Asiantiaid y refferendwm](#)

[Asiantiaid eraill](#)



## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

---

# 2

## Asiantiaid yn Refferendwm yr UE

### Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Y broses o benodi asiantiaid ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, y dyddiadau cau ar gyfer hysbysu Swyddogion Cyfrif o'u penodiad, a'r hyn y gall asiantiaid, unwaith y cânt eu penodi, ddisgwyl ei weld mewn gweithrediadau refferendwm allweddol.

### Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- penodi asiantiaid refferendwm
- penodi asiantiaid eraill
- crynodeb o'r gweithrediadau y caiff asiantiaid fynd iddynt

### Dogfennau cysylltiedig:

- [Mynd i weithrediadau allweddol Refferendwm yr UE](#)
  - [Yr hyn y gall ac na all ymgyrchwyr ei wneud wrth ymgyrchu](#)
-

# Crynodeb

Os bydd ymgyrchwyr am fynd i weithrediadau refferendwm allweddol bydd angen iddynt benodi asiant refferendwm yn yr ardal bleidleisio lle mae am fod yn bresennol.

Unwaith y bydd y Swyddog Cyfrif perthnasol wedi cael gwybod am y penodiad, gall yr asiant refferendwm arsylwi'r broses o agor pleidleisiau post, y bleidlais a'r cyfrif yn yr ardal honno.

Hefyd, gall asiantiaid refferendwm benodi asiantiaid eraill i fynd i'r gweithrediadau hyn.

Mae'r ddogfen hon yn eich tywys drwy wybodaeth allweddol am benodi asiantiaid refferendwm ac asiantiaid eraill a'r hyn y gallant ddisgwyl ei weld yn y gweithrediadau y mae hawl ganddynt fynd iddynt.

---

# Cyflwyniad

1.1 Rhaid bod gan bob ymgyrchydd cofrestredig 'berson cyfrifol'. Y person hwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyllid yr ymgyrchydd yn cydymffurfio â'r rheolau ar wariant, rhoddion a benthyciadau. Y 'person cyfrifol' (neu berson sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig ganddo) yw'r person a all hefyd benodi **asiantiaid refferendwm** ar ran yr ymgyrchydd cofrestredig. I gael rhagor o wybodaeth am y 'person cyfrifol', gweler ein dogfen ar [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#).

1.2 Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu Swyddogion Cyfrif o benodiad asiantiaid refferendwm yw **hanner dydd 31 Mai 2016**. Peidiwch â'i fethu. Os na chaiff Swyddog Cyfrif wybod am y penodiad erbyn y dyddiad cau, ni chewch fynd i unrhyw weithrediad refferendwm allweddol yn ardal bleidleisio'r Swyddog Cyfrif hwnnw.



1.3 Ym Mhrydain Fawr, mae pob awdurdod lleol yn ardal bleidleisio. Mae Gogledd Iwerddon a Gibraltar yn ardal bleidleisio'r un.

1.4 Y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol ar gyfer pob awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr yw Swyddog Cyfrif yr ardal honno. Yng Nghymru a Lloegr, gellir cael manylion cyswllt o [www.fymhleidlaisi.co.uk](http://www.fymhleidlaisi.co.uk). Yn yr Alban, gallwch gysylltu â'r Swyddogion Cyfrif perthnasol drwy'r swyddfa etholiadau ym mhob cyngor lleol.

1.5 Yng Ngogledd Iwerddon y Prif Swyddog Etholiadol yw'r Swyddog Cyfrif, ac yn Gibraltar Clerc Senedd Gibraltar yw'r Swyddog Cyfrif.

1.6 Rhaid i'r hysbysiad o benodiad a roddir i'r Swyddog Cyfrif perthnasol fod yn ysgrifenedig ac rydym wedi creu [templed hysbysiad ar gyfer rhoi gwybod am benodi asiantiaid refferendwm](#) sydd ar gael ar ein gwefan.

# Asiantiaid refferendwm

1.7 Unwaith y cânt eu penodi ar gyfer ardal bleidleisio benodol, gall asiantiaid refferendwm fynd i'r gweithrediadau refferendwm canlynol yn yr ardal honno:

- agor pleidleisiau post (a dosbarthu pleidleisiau post yng Ngogledd Iwerddon)
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif pleidleisiau

## Pwy all fod yn asiant refferendwm?

1.8 Nid oes angen unrhyw gymwysterau penodol i fod yn asiant refferendwm, er y dylai fod yn rhywun yr ymddiriedir ynddo i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl. Gall y 'person cyfrifol' benodi ei hun yn asiant refferendwm os yw'n dymuno.

1.9 Fodd bynnag, ni chaiff y bobl ganlynol fod yn asiantiaid refferendwm:

- y Prif Swyddog Cyfrif, unrhyw Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu unrhyw Swyddog Cyfrif
- unrhyw ddirprwy neu glerc i'r Prif Swyddog Cyfrif, Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu Swyddog Cyfrif, neu aelod o'u staff
- swyddog awdurdod lleol y mae'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu'r Swyddog Cyfrif yn defnyddio ei wasanaethau

## Penodi asiant refferendwm

1.10 Gall pob ymgyrchydd cofrestredig benodi asiant refferendwm ar gyfer pob ardal bleidleisio yn y DU a Gibraltar. Rhaid i 'person cyfrifol' ymgyrchydd cofrestredig (neu person sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig ganddo) hysbysu'r Swyddog Cyfrif o'r penodiad erbyn **hanner dydd 31 Mai 2016**.

---

# 6

1.11 Rhaid i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig, gan nodi enw a chyfeiriad cartref neu fusnes yr ymgyrchydd cofrestredig a'r asiant refferendwm. Rhaid iddo hefyd gael ei lofnodi gan y person cyfrifol (neu rywun sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig ar ei ran).

1.12 Gall y Swyddog Cyfrif ddarparu ffurflen hysbysu. Fel arall, mae'r [hysbysiad templed ar gyfer penodi asiantiaid refferendwm](#) ar gael ar wefan y Comisiwn.

1.13 Yng Nghymru a Lloegr, gellir cael manylion cyswllt Swyddogion Cyfrif o [www.fymhleidlaisi.co.uk](http://www.fymhleidlaisi.co.uk). Yn yr Alban, gallwch gysylltu â'r Swyddogion Cyfrif perthnasol drwy'r swyddfa etholiadau ym mhob cyngor lleol.

1.14 Yng Ngogledd Iwerddon y Prif Swyddog Etholiadol yw'r Swyddog Cyfrif a gellir cysylltu ag ef drwy Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon yn [www.eoni.org.uk/Utility/Contact-Us](http://www.eoni.org.uk/Utility/Contact-Us). Clerc Senedd Gibraltar yw'r Swyddog Cyfrif yno. Gallwch gysylltu ag ef yn [paul.martinez@parliament.gi](mailto:paul.martinez@parliament.gi).

1.15 Bydd y Swyddog Cyfrif yn hysbysu'n gyhoeddus enw a chyfeiriad yr asiant refferendwm ac enw'r ymgyrchydd cofrestredig cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael gwybod.

## Asiantiaid eraill

1.16 Unwaith y bydd y Swyddog Cyfrif wedi cael gwybod pwy yw'r asiant refferendwm, gall yr asiant refferendwm benodi asiantiaid eraill i arsylwi ar y prosesau allweddol canlynol yn yr ardal bleidleisio honno:

- agor pleidleisiau post (a dosbarthu pleidleisiau post yng Ngogledd Iwerddon)
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif yn yr ardal bleidleisio

1.17 Hefyd, caiff asiant refferendwm wneud, neu helpu i wneud, unrhyw beth y mae asiant wedi'i awdurdodi i'w wneud heb fod angen ei benodi'n swyddogol.

1.18 Gellir penodi unrhyw un fel asiant pleidleisiau post, pleidleisio neu gyfrif, ar wahân i'r canlynol:

---



- y Prif Swyddog Cyfrif, unrhyw Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu unrhyw Swyddog Cyfrif
- unrhyw ddirprwy neu glerc i'r Prif Swyddog Cyfrif, Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu Swyddog Cyfrif, neu aelod o'u staff
- swyddog awdurdod lleol y mae'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu'r Swyddog Cyfrif yn defnyddio ei wasanaethau

## Terfynau ar nifer yr asiantiaid a all gael eu penodi

1.19 Gall asiant refferendwm benodi unrhyw nifer o asiantiaid pleidleisio i fynd i bob gorsaf bleidleisio, ond dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob ymgyrchydd cofrestredig all fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw adeg. Gellir penodi'r un asiant pleidleisio i fynd i sawl gorsaf bleidleisio.

1.20 Bydd y Swyddog Cyfrif yn hysbysu'r asiant refferendwm o uchafswm nifer yr asiantiaid pleidleisiau post a chyfrif y gall eu penodi. Caiff pob asiant refferendwm benodi'r union un nifer.

1.21 Yn y cyfrif, oni fydd amgylchiadau arbennig, ni fydd nifer yr asiantiaid cyfrif a all gael eu penodi gan bob asiant refferendwm yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif (h.y. y staff hynny a gyflogir i gyfrif) â nifer yr asiantiaid refferendwm ar gyfer yr ardal bleidleisio honno.

## Asiantiaid cyfrif a ddynodir i ofyn am ailgyfrif pleidleisiau

1.22 Gellir dynodi un asiant cyfrif fesul ymgyrchydd cofrestredig ym mhob ardal bleidleisio i ofyn am ailgyfrif pleidleisiau yn yr ardal bleidleisio. Rhaid i ddynodiadau o'r fath gael eu gwneud yn ysgrifenedig gan yr asiant refferendwm ar yr adeg y caiff yr asiant cyfrif ei benodi.

## Penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif

1.23 Rhaid i'r cais i benodi'r asiantiaid hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cyfrif. Rhaid iddo gynnwys enwau a chyfeiriadau'r bobl a benodir. Bydd y Swyddog Cyfrif yn

darparu ffurflenni y gall yr asiant refferendwm eu defnyddio at y diben hwn. Fel arall, gallwch ddod o hyd i [ffurflenni penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif](#) ar ein gwefan.

1.24 Bydd y dyddiad cau ar gyfer penodi'r asiantiaid hyn yn dibynnu ar y broses y byddant yn bresennol ynddi. Rhaid i asiantiaid pleidleisio a chyfrif gael eu penodi erbyn **16 Mehefin 2016**.

1.25 Fodd bynnag, nid oes ond rhaid i'r ffurflenni penodi ar gyfer asiantiaid pleidleisiau post gael eu cyflwyno i'r Swyddog Cyfrif erbyn yr amser a bennwyd ar gyfer y sesiwn agor pleidleisiau post y maent am fynd iddi. Bydd y Swyddog Cyfrif yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd ysgrifenedig i asiantiaid refferendwm ynghylch amser a lleoliad pob sesiwn agor pleidleisiau post.

1.26 Os bydd asiant pleidleisio neu gyfrif yn marw neu'n methu â gweithredu, caiff yr asiant refferendwm benodi asiant arall yn ei le drwy gyflwyno'r ffurflen benodi berthnasol i'r Swyddog Cyfrif.

1.27 Rhoddir rhagor o wybodaeth am yr hyn y caiff asiantiaid ei wneud a'r hyn na chaiff asiantiaid ei wneud, a'r hyn y gallant ddisgwyl ei weld mewn sesiynau agor pleidleisiau post (ac, yng Ngogledd Iwerddon, sesiynau dosbarthu), gorsafodd pleidleisio a'r cyfrif yn [Mynd i weithrediadau allweddol Refferendwm yr UE](#).

Ni chaiff asiantiaid refferendwm a phleidleisiau post fynd i sesiwn **dosbarthu** pleidleisiau post ym Mhrydain Fawr. Caiff asiantiaid refferendwm o leiaf 48 awr o rybudd ysgrifenedig ynghylch amser a lleoliad y sesiwn dosbarthu pleidleisiau post cyntaf a chânt eu hysbysu cyn gynted â phosibl o unrhyw ddigwyddiadau dilynol. Mae angen i ffurflenni penodi gael eu cyflwyno i'r Dirprwy Swyddog Cyfrif erbyn yr amser a bennwyd ar gyfer y sesiwn y maent am fynd iddi.